OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1092 (Cy. 259) (C. 63)

# DIOGELWCH TÂN, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Diogelwch Tân 2021 (Cychwyn) (Cymru) 2021

*Gwnaed - - - - 27 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 4(2)(b) o Ddeddf Diogelwch Tân 2021(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelwch Tân 2021 (Cychwyn) (Cymru) 2021.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2021**

**2.** Y diwrnod penodedig i adran 1 o Ddeddf Diogelwch Tân 2021 ddod i rym yw 1 Hydref 2021.

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
o dan awdurdod y Gweinidog Cyfiawnder
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

27 Medi 2021

(**1**) 2021 p. 24.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym adran 1 o Ddeddf Diogelwch Tân 2021 ("y Ddeddf") mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru.

Mae adran 1 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i erthygl 6 (cymhwysiad i fangreoedd) o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541). Mae adran 4 o'r Ddeddf yn cynnwys y darpariaethau cychwyn.